

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 6 Mai 2015

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 12 MAI 2015** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Penodi Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16.

4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Penodi Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2015 (copi ynghlwm).

7 DOGFEN GYFLENWI FLYNYDDOL AR GYFER Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (Tudalennau 13 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (amgaeir copi) i aelodau gymeradwyo fersiwn derfynol y ddogfen gyflenwi.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU (Tudalennau 35 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) i Aelodau nodi'r adroddiad fel rhan o ymdrech y Pwyllgor Safonau i gynyddu safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau.

9 PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR SAFONAU (Tudalennau 41 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) i'r Cyngor ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau Arbennig ynghylch y ddau unigolyn i eistedd fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau.

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU ARCHWILIO'R CYNGOR (Tudalennau 43 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) i'r Cyngor ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2014/2015.

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL (Tudalennau 63 - 64)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol (copi ynghlwm) i'r Cyngor ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (Atodiad i ddilyn).

12 PENODI I'R PANEL HEDDLU A THROSEDD (Tudalennau 65 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i'r Cyngor benodi un aelod o'r Grŵp Llafur i'r Panel Heddlu a Throsedd.

13 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Joe Welch y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran y Grŵp Annibynnol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Er mwyn arbed arian i Gyngor Sir Ddinbych mae ar y Grŵp Annibynnol eisiau cynnig bod treuliau aelodau am fynychu cyfarfodydd yn cael eu trafod ymhellach yn y Gweithdy Cyllideb ar 5 Mehefin 2015

14 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 69 - 72)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

15 POLISI TÂL

Ystyried adroddiad i'r Aelodau gymeradwyo Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2015/2016 (copi i ddilyn).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Brian Blakeley
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Is-
Gadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones

Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 14 Ebrill 2015 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Rheolwr Prosiect, Moderneiddio Addysg (JC) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr(wyr) William Cowie, James Davies, Carys Guy a/ac Dewi Owens

2 DATGANIAD CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad personol yn Eitem 7 - Cymeradwyo Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ailddatblygu Ysgol Glan Clwyd.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Yn y fan hon, croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Prendergast, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Dyma'r Cadeirydd hefyd yn llongyfarch y Cynghorydd Peter Owen a'i deulu ar ddathlu 63 mlynedd o Briodas heddiw.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Cyn y cyfarfod dosbarthwyd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod 27.01.2015 a 27.03.2015.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Chwefror a 24 Mawrth 2015.

Materion yn Codi - 24 Chwefror, 2015 – Tudalen 15 Eitem Rhif 5 - Treth y Cyngor a Materion Cysylltiedig.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am ymateb ar ôl i'r mater gael ei drafod gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts bod y mater wedi'i drafod yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ac fe gytunwyd y byddai'r eitem yn cael ei chynnwys ar Agenda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Gorffennaf 2015. Roedd gwahoddiad wedi'i estyn i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt, i ddod i'r cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2015.

Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am ddiweddariad ynghylch â'r llythyr a gafodd ei anfon at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu am ddadansoddiad o'r hyn a gyflawnwyd a'r hyn a fyddai'n debygol o gael ei gyflawni yn seiliedig ar swm praesept yr Heddlu. Gofynnwyd hefyd am y cynllun gweithredu a gynhyrchwyd ar gyfer y rhanbarth.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod llythyr wedi'i anfon.

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr a 24 Chwefror 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi, yn amodol ar yr uchod.

6 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad (a gafodd ei ddisbarthu yn flaenorol) yn ceisio cytundeb i ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16 yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015. Ceisiwyd am enwebiadau ar gyfer y ddau rôl.

Ethol Cadeirydd – Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams, ac eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Hugh Evans, i enwebu'r Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16. Ni wnaed unrhyw enwebiad arall. Diolchodd y Cynghorydd Kensler i'r aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei llongyfarch ar ei henwebiad.

Ethol Is-Gadeirydd – Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland, ac eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Arwel Roberts, i enwebu'r Cynghorydd Ann Davies yn Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16.

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield gyda'r Cynghorydd Bill Tasker yn eilio ei chynnig i enwebu'r Cynghorydd Win Mullen-James fel Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais gudd ar gyfer ethol yr Is-Gadeirydd arfaethedig.

23 o bleidleisiau ar gyfer y Cynghorydd Ann Davies
19 pleidlais ar gyfer y Cynghorydd Win Mullen-James

Enwebwyd y Cynghorydd Ann Davies fel yr Is-gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16. Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei llongyfarch ar ei henwebiad.

PENDERFYNWYD cynnig y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Ann Davies yn Is-Gadeirydd ar y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16 a'u hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015.

7 CYMERADWYO'R ACHOS BUSNES TERFYNOL AR GYFER AILDDATBLYGU YSGOL GLAN CLWYD

Fe gyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Busnes Terfynol i Ailddatblygu Ysgol Glan Clwyd.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol (Mai 2013) ac Achos Busnes Amlinellol (Hydref 2013) ar gyfer y prosiect hwn. Nawr mae angen cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Terfynol i gael ei ystyried am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Bydd prosiect Ysgol Glan Clwyd yn darparu adeilad ysgol wedi'i ymestyn a'i adnewyddu i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Sir.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y prosiect wedi bod yn bartneriaeth lwyddiannus rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych. Aelodau a Swyddogion yn Sir Ddinbych yn teimlo'n gryf iawn am yr iaith Gymraeg ac mae'r prosiect hwn angen ei hyrwyddo fel "newyddion da".
- Mae hwn wedi bod yn gynllun wyth mlynedd a ffigurau wedi dangos yr angen am addysg Gymraeg ar gynnydd.
- Y Cynghorydd Dewi Owens yw'r cynrychiolydd lleol ar Fwrdd y Prosiect ac argymhellwyd bod y Cynghorydd Bill Cowie hefyd yn derbyn copïau o bapurau Bwrdd y Prosiect.
- Mae'r Swyddog Effeithlonrwydd Amgylcheddol wedi mynychu cyfarfod blaenorol Bwrdd y Prosiect i egluro gofynion atebolrwydd, cynnal a chadw ac effeithlonrwydd yn y dyfodol.
- Mae dyluniad yr ysgol wedi bod o'r pwys mwyaf. Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o'r cynllun. Ymweliadau ag ysgolion eraill i archwilio dyluniadau wedi cael eu trefnu.

- Mae'r mater o leihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion iau wedi cael ei grybwyll. Esboniodd yr Aelod Arweiniol fod yr angen am addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion uwchradd wedi bod ar gynydd. Nid yn unig oedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bwydo i mewn i'r ysgol uwchradd ond mae myfyrwyr hefyd o ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion o siroedd sy'n ffinio.
- Mae'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Ffydd newydd ar y trywydd iawn. Roedd achosion ynglŷn â lleoliad yr ysgol, ond byddai achos busnes yn cael ei lunio a byddai'r cynnydd yn cael ei wneud erbyn tymor Hydref 2015.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams yr argymhelliad a mynegodd ei ddiolch i'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, Jackie Walley, a'i thîm am eu holl waith.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

42 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn argymhell yn unfrydol i'r Cyngor gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd.

8 **PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: GRYM I BOBL LEOL**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol) i geisio cymeradwyaeth y Cyngor ynglŷn ag ymateb drafft i ymgynghoriad ynglŷn â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru i'w gyflwyno ar ran y Cyngor cyn y dyddiad cau ar 28 Ebrill 2015.

Roedd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wedi hel ymatebion cynhwysfawr sy'n nodi'r prif faterion yr oedd y Cyngor yn ei groesawu gan roi beirniadaeth adeiladol lle bo'n briodol. Yn ogystal, mae'r ymateb yn nodi'r materion hynny y mae'r Cyngor yn anghytuno â nhw ac a fyddai, ym marn y Cyngor, yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau unedig newydd i berfformio'n dda ac i wella.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnwyd bod cais ysgrifenedig yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ar ran Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gost Adroddiad Williams a'r Adolygiad Ffiniau.
- Roedd yr ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn cael ei anfon at Aelodau priodol y Cynulliad, yn gofyn am eu cefnogaeth.
- Argymhellwyd bod yr Aelodau yn anfon ymatebion unigol i Lywodraeth Cymru ynghyd ag ymatebion y Grŵp.

Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Evans yr argymhelliad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

36 pleidlais o blaid, 1 yn erbyn a 0 yn ymatal.

Yn y fan hon hysbysodd yr Arweinydd yr Aelodau o gyfarfod y Cabinet ar y cyd a gynhaliwyd â Chonwy mis diwethaf. Roedd Conwy wedi cysylltu â Sir Ddinbych gyda chynnig o anfon ymateb ar y cyd i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru.

Eglurodd y Prif Weithredwr lle roedd y safbwynt rhwng ymateb Sir Ddinbych ac ymateb Conwy yr un fath, y byddai ymateb ar y cyd yn cael ei roi at ei gilydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies yr ymateb ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans.

Pleidleisiodd yr aelodau ar y cynnig fel a ganlyn:

29 pleidlais o blaid, 7 yn erbyn a 3 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod

- (i) *y Cyngor yn cytuno ar yr ymateb i'r ymgynghoriad drafft a chymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*
- (ii) *yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cael eu hawdurdodi i drafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr ymateb ar y cyd ar y materion hynny o gymorth a phryder cyffredin ac os daethpwyd i gytundeb, i gymeradwyo ymateb ar y cyd yn dilyn ymgynghoriad gydag Arweinwyr y Grŵp.*

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2015/2016

Fe gyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price adroddiad (wedi'i ddsbarthu'r flaenorol) i sicrhau bod yr Aelodau yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16 o ran taliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig.

Byddai penderfyniadau'r Panel yn cael eu gwneud yn y Cyngor Blynyddol a gynhelir ar 12 Mai 2015.

Gallai aelod unigol ddewis peidio â derbyn eu lwfans sylfaenol drwy roi'r cais mewn ysgrifen.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhelliad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

34 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn a 2 yn ymatal.

PENDERFYNWYD:

- (i) *Bod yr Aelodau yn mabwysiadu penderfyniadau'r Panel ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16 mewn perthynas â thalu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau a thaliadau i aelodau cyfetholedig.*
- (ii) *Bod yr Aelodau'n penderfynu ar lefel y gydnabyddiaeth ariannol a delir i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i aros yr un fath ar gyfer 2014/15 a blwyddyn y cyngor 2015/16.*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

PENDERFYNWYD – *cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod: 12 Mai 2015

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd, y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, ac Alan Smith, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes

Awdur yr Adroddiad: Carol Evans ac Emma Horan, Tîm Cynllunio Strategol

Teitl: Cynllun Corfforaethol 2012-17, Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 4 (2015-16)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 4 (2015-16) ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2012-17 ac mae'n amlinellu cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych tuag at Gynllun Lles Sir Ddinbych yn ystod 2015-16.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn drafft terfynol o Ddogfen Gyflenwi Blwyddyn 4 y Cynllun Corfforaethol, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol y Ddogfen Gyflenwi (Atodiad 1) er mwyn galluogi iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Caiff Dogfen Gyflenwi ei chreu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Ei bwrbas yw amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fydd yn cael eu cychwyn a/neu eu dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, gyda'r bwriad o ddangos sut y mae'r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud. Rydym wedi defnyddio'r cyfle hwn i amlinellu cyfraniad y cyngor i Gynllun Lles Sir Ddinbych yn ystod 2015-16. Bydd y ddogfen (atodiad 1) yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan fel ei fod ar gael ar gyfer ein rheoleiddwyr, y cyhoedd a phartneriaid.

4.2 Mae'r gweithgareddau'n tarddu o Gynlluniau Gwasanaeth a Rhaglen. Caiff cynnydd ei adrodd i'r Pwyllgor a'r Cabinet Craffu Perfformiad drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol (Rheolir perfformiad Cynllun Lles Sir Ddinbych gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych). Bydd arfarniad cyffredinol o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynnyddol a gyhoeddir bob mis Hydref.

4.3 Mae'r gweithgareddau a amlygir o fewn Dogfen Cyflawni Blwyddyn 4 wedi'u cynllunio i gael effaith gadarnhaol ar les, annibyniaeth a gwytnwch ein Blaenoriaethau Corfforaethol a chymunedau (Cynllun Lles Sir Ddinbych).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Ddogfen Gyflenwi yn nodi'r gweithgaredd y mae'r cyngor wedi ei gynllunio ar gyfer 2015-16 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol bum mlynedd o hyd sy'n amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir y bydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae Dogfen Gyflawni Blwyddyn 4 yn cynnwys adran ar y goblygiadau ariannol ar gyfer 2015-16.

6.2 Nid oes arian ychwanegol ar gael i gyflwyno'r Cynllun Lles. Bydd partneriaid yn ystyried yr achos busnes ar gyfer pob menter arfaethedig yn ofalus, ac yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau presennol i ddiwallu'r canlyniadau a nodwyd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb penodol ar gyfer yr adroddiad hwn ei hun, ond bydd angen i Benaethiaid Gwasanaeth ystyried effaith cydraddoldeb gweithgareddau unigol a grybwyllir yn y ddogfen er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael unrhyw effaith andwyol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

7.2 Cynhaliwyd AEC ar gyfer y Cynllun Lles a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Cynllun yn cael effaith andwyol ar bobl o fewn y nodweddion a ddiogelir. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol cael Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob prosiect Cynllun Lles.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni wedi cael ei datblygu o weithgaredd a nodwyd o Gynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2015-16 (y cytunwyd arnynt gydag Aelodau Arweiniol) ac o Gynlluniau Rhaglen. Mae gweithgareddau wedi'u diffinio a'u mireinio ymhellach drwy drafodaethau gyda phersonél allweddol sy'n ymwneud â'r gwaith o'u cyflenwi. Cafodd drafft ei ddsbarthu i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ar gyfer sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

8.2 Mewn perthynas â'r Cynllun Lles, mae rhaglen fanwl o ymgysylltu ac ymgynghori wedi cael ei chwblhau ac mae'r Cynllun Lles wedi cael ei

gymeradwyo'n ffurfiol gan bob partner yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae ein Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn egluro ein blaenoriaethau uchelgeisiol – ond y gellir eu cyflawni – ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Bydd rhai o'r blaenoriaethau hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac mae'r amcangyfrif diweddaraf yn cymryd y bydd angen i'r Awdurdod fuddsoddi tua £119 miliwn o bunnoedd yn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn ein blaenoriaethau er mwyn cyflawni'r Cynllun. Tybir y bydd £79m yn cael ei wario rhwng 2012/13 a 2016/17 a £40m yn y ddwy flynedd wedyn. Cafodd diweddariad o'r Cynllun Corfforaethol ei roi i'r Cyngor Sir ar 3 Chwefror 2015 a chymeradwywyd bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael blaenoriaeth o ran rowndiau gosod cyllideb yn y dyfodol. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Lles.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Corporate Plan 2012-17

Annual Delivery Document
2015-2016

This document is available on request in other languages and / or formats

Tudalen 17



Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth, gofynnwch os gwelwch yn dda i rywun yr ydych yn gwybod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg i ffonio 01824 706161

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01824 706161

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706161

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01824706161 سے رابطہ کریں۔

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ ক 01824706161 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01824 706161

إذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية ف 01824706161

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01824706161

To make comments and suggestions or for further information please contact:

By **EMAIL**:

corporate.improvement@denbighshire.gov.uk

Or you can **TELEPHONE** the team on:

01824 706161

Or by **POST** at:

Strategic Planning Team,
Denbighshire County Council,
County Hall,
Wynnstay Road,
Ruthin,
LL15 1YN

Contents

Introduction	3
Financing Year Four Of The Corporate Plan	3
<u>The Corporate Plan:</u>	
Priority 1: Developing The Local Economy	5
Priority 2: Improving Performance In Education And The Quality Of Our School Buildings	8
Priority 3: Improving Our Roads	9
Priority 4: Vulnerable People Are Protected And Are Able To Live As Independently As Possible	10
Priority 5: Clean And Tidy Streets	11
Priority 6: Ensuring Access To Good Quality Housing	12
Priority 7: Modernising The Council To Deliver Efficiencies And Improve Services For Our Customers	13
<u>The Wellbeing Plan:</u>	15
Be Active	
Connect	
Give	
Keep Learning	
Take Notice	

Introduction

Denbighshire County Council's Corporate Plan 2012-17 was agreed and published in October 2012. The Corporate Plan (www.denbighshire.gov.uk/corporateplan) explains the council's priorities, why these priorities were chosen, and what we expected to achieve by 2017. This Delivery Document 2015-16 explains what we expect to do in the forthcoming year to continue to support the delivery of our priorities.

'Supporting Independence & Resilience: Denbighshire Wellbeing Plan 2014-18' (hereafter 'the Wellbeing Plan') is a partnership plan, developed after extensive engagement and consultation with communities and partners, which steers the work of public sector partners in Denbighshire. We have also included in this Delivery Document details of some of the Local Authority's activities that contribute to the delivery of the Wellbeing Plan.

Performance for the Corporate Plan is monitored closely with annual reports on our progress published by 31 October each year – these are available from our website at www.denbighshire.gov.uk. Reports on performance towards the Wellbeing Plan are available from the website: <http://wellbeingplandenbighshire.org.uk> .

The Corporate Plan was challenging when it was first published and remains ambitious in its scale. The plan's challenges have been heightened as we have had to make unprecedented cuts to budgets and we have struggled to maintain business focus on our strategic vision. As we move towards its final year we remain determined to meet our objectives and achieve still greater improvement despite further financial pressures.

Financing Year Four of the Corporate Plan (2015-16)

Our Corporate Plan 2012-17 sets out our ambitious - but deliverable - priorities for the five year period. Some of these priorities will require significant capital investment, and the latest estimate assumes that the Authority will need to invest somewhere in the region of an additional £119 million pounds of capital funding in our priorities to deliver the Plan. It is assumed that £79m will be spent in the years 2012/13 to 2016/17 and £40m in the following two years. An update of the Corporate Plan was taken to County Council on 3 February 2015 and it was approved that the delivery of the Corporate Plan takes priority in future budget setting rounds.

The table below shows the total revenue (day-to-day) and capital (investment) spends against each priority for 2015-16. It also shows the proposed additional expenditure arising from the Corporate Plan. The expenditure shown includes capital funded by Welsh Government totalling £12.2m.

Denbighshire County Council Expenditure in 2015-16 (£000s)	Local economy	Education and schools	Improving our roads	Protection of vulnerable & independent living	Clean and tidy streets	Good quality housing	Modernising
Revenue	830	70,569	3,981	40,399	7,934	13,197	2,676
Capital	549	2,187	3,635	758	0	7,883	636
Proposed Corporate Plan	0	25,078	1,750	1,341	0	0	0
Total spend	1,379	97,834	9,366	42,498	7,934	21,080	3,312

We want to help businesses go from strength to strength, offering good quality, well paid and rewarding jobs for our residents; providing them with a means to enjoy a good quality of life in our towns and communities.

For this priority we have identified six outcomes that we aim to deliver for our communities between now and 2023 in line with our Economic & Community Ambition Strategy. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016.

Outcome: The right Infrastructure for Growth

- By March 2016, we will be providing advice, support and assistance to businesses to encourage them to make best use of the improved digital and mobile communications being rolled out across the county. For example, at least 25% of business premises will be signed up to superfast broadband, the number of voice-not-spots (2G) will be reduced by at least 50% and 3G and 4G reception coverage will be increased by 25% and 10% respectively.
- By March 2016, we will promote to the open market and secure developers / plans for employment sites at Nant Hall Road, Prestatyn, and Canol y Dre, Ruthin.
- By March 2016, we will have supported landowners / developers to identify opportunities to provide further business space at Cilmedw, Llangollen; Plas Clough, Denbigh; and Abergele Road, Rhuddlan.
- We will celebrate the opening of new businesses and the creation of local job opportunities at Station Yard, Denbigh.

Outcome: Supported and connected business

- We will increase the amount of contact that both our senior and front line staff has with businesses in order to better understand business pressures.
- We will make it easier for local businesses to find the right kind of advice and support.
- Based on feedback from our 2014/15 Business Survey we will support and improve opportunities for businesses to network with each other.
- By March 2016 we will make our business regulations easier to navigate and ensure that our practices support the development of local business.

Outcome: Opportunities for Growth

- We will work with local tourism businesses and operators to strengthen tourism in the county. For example, we will encourage hospitality and tourism venues to advertise access to WiFi aiming to see at least a 20% increase in the number doing so by March 2016.
- We will support Denbighshire Voluntary Services Council (DVSC) to grow social enterprise in the county through the development of a Social Enterprise Network.
- By March 2016 we will have researched and understood where potential for growth in new sectors of the local economy exists, including setting out the priority actions we will undertake to help secure this growth.

Outcome: High quality skilled workforce

- We will have signed up a further 35 local employers to provide high quality work experience placements and will be offering best practice careers advice and support in our schools by March 2016.
- We will have identified the advanced skills needs of growth sector companies in the county and will be working with schools and colleges to increase young people's awareness of employment opportunities in these areas.

Outcome: Vibrant towns and communities

- By March 2016 we will have made good progress implementing priorities emerging from the first town centre action plans, including a pilot programme to support and encourage independent retailers.
- We will continue improvement work in Rhyl, investing significantly in physical improvements to the High Street and the completion of Coastal defence works. We'll also be building our partnership approach with Neptune Developments in order to bring about new improvements to the seafront and an improved retail offer in the town.
- As part of our coastal facilities improvements the Nova Centre in Prestatyn will have undergone a £4.4m refurbishment and will be re-opened by the end of 2015.

Outcome: Well Promoted Denbighshire

- We will have started a campaign to promote Denbighshire as a great location for business, including marketing of key investment sites across the county.
- We will have completed improvements to our investment enquiry handling processes and provided clearer investment guidance in order to make it easier for businesses to relocate to and within the county.

Priority 2:

Improve Performance In Education And The Quality Of Our School Buildings

For this priority we have identified one outcome that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016 in support of this outcome.

Outcome: Students achieve their potential

- We will work with partners to identify, early on, children and young people who are at risk of disengaging from education, training or employment. The TRAC project – a regional project led by Denbighshire County Council on behalf of North Wales Local Authorities - aims to ensure that young people gain the appropriate holistic support to achieve the skills and qualifications required to enter sustained employment including the skills needed for economic growth across the North Wales.
- We will be continuing to work with our partners in the regional school improvement service (GwE) to raise standards and ensure that children and young people experience a good quality education and achieve their potential.
- We will continue to deliver on the ambitious 21st Century Schools Programme and make major improvements to the quality of school buildings and facilities including:
 - by March 2016 we will have commenced construction works for the extension and refurbishment of Ysgol Glan Clwyd
 - by March 2016 we will have made significant progress with the programme of works for the extension and refurbishment of Bodnant Community School
 - by March 2016 we will be close to the completion of a new school building for Rhyl High School
- We will continue to reduce our reliance upon mobile classrooms.
- We will celebrate teacher achievements and good practice by developing an award scheme (Excellence Denbighshire for teachers).

Within this priority we have identified one outcome that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities that we plan to undertake in 2015 - 2016 in support of this outcome.

Outcome: Residents and visitors to Denbighshire have access to a well-managed road network

- We will resurface many of the county roads, including
 - Abbey Street, Rhyl
 - Berwyn Street, Llandrillo
 - Fern Avenue, Prestatyn
 - Ponderosa, upper Denbigh Street, St Asaph
 - School Road, Ruthin
 - Vale Street, Denbigh

- Microasphalt will be laid at many locations, including
 - Brook Street, Llangollen
 - Windermere Drive and Service Road, Prestatyn
 - Derwent Close, Prestatyn
 - Coniston Drive, Prestatyn
 - Garford Road, Rhyl
 - Rhyl Service Road (parallel to Coast Road), Rhyl

- We will dress the surface of many county routes, including
 - Pant y Dulaith, Cwm
 - Llawog Farm to Llanynys, Denbigh

Priority 4:

Vulnerable People Are Protected

And Are Able To Live As Independently As Possible

For this priority we have identified two outcomes that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016 in support of each outcome.

Outcome: Vulnerable people can live as independently as possible

- We will develop services for Care Leavers commissioned through engagement and co-production with those in care/those who are no longer in care throughout 2015 – 2016.
- During 2015 – 2016 we will continue to develop person centred approaches to support and empower citizens to gain independence and achieve the outcomes that are important to them, including working with the Social Services Improvement Agency to test the National Outcomes Framework.
- We will test a different way of working with citizens at risk of losing their independence that is community focussed and geared towards promoting independence. This will be part of a national 'Community Led Conversations' programme run by the National Development Team for Inclusion (NDTi).
- We will develop, promote and publish the Older People's Strategy – Ageing Well in Denbighshire - which aims to work in partnership to support the development of five key areas of: age friendly communities, dementia supportive communities, falls prevention, opportunities for work and skills development and loneliness and isolation.

Outcome: Vulnerable people are protected

- We will develop a strategy by September 2015 to further strengthen the impact of early intervention services.
- During 2015 - 2016 we will develop and deliver an effective training programme for all staff in Children and Family Services to help and support vulnerable families.

For this priority we have identified one outcome that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016 in support of this outcome.

Outcome: To produce an attractive environment for residents and visitors alike

- We aim to identify and address the “Top 20 Eyesore Sites” within Denbighshire.
- We will pursue a campaign and actively engage with people in Denbighshire to tackle dog fouling with specific emphasis on patrolling “hotspot” areas.

For this priority we have identified one outcome that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016 in support of this outcome.

Outcome: Our housing market will offer a range of types and forms of housing in sufficient quantity to meet the needs of individuals and families

- We will develop new initiatives across the county to enhance tenant engagement and satisfaction. For example, implementing “tidy gardens” competitions and nominating community champions.
- We will publish the results of the 2014/15 Council Tenant survey and create an action plan to respond to any issues.
- We will develop and deliver a Housing Strategy and identify sites to become new council housing properties by March 2016. For example, by identifying vacant private sector dwellings to be converted into council housing.
- By March 2016 we will ensure as many Affordable Houses as possible are provided through the planning system and other methods of delivery, for example by the private sector.
- We will deliver an agreed strategic approach to extra care housing in Denbighshire by continuing to work with developers, housing associations and other partners to develop plans for two extra care facilities by 2017.

Priority 7:

Modernising The Council To Deliver Efficiencies And Improve Services For Our Customers

Within this priority we have identified two outcomes that we aim to deliver for our communities. Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015 - 2016.

Outcome: Services will continue to improve and develop

- We will start to digitise our archives service and modernise our libraries. In 2015 we will open a new customer service centre in Rhyl where customers will be able to access several services from one building. They will also be able to use the 'self- service' equipment available (with staff support) to use their on-line customer account to log enquiries, with the aim of resolving 70% at the first point of contact.
- We will develop better ways to meet customers' needs; by 2016 we will have implemented an online customer account so that customers can ask for advice/information, report problems, request services and make payments for Highways and Environmental services using self-service, with the aim of increasing the number of customers using on-line services to 70%.
- We will bring Children and Family Services and Education departments together to better meet the education, social care and health needs of children, young people and their families.
- We will set out a vision for our communities and agree actions that will address the challenges and opportunities they face, which will give them a more sustainable future. This will be published in city, town and area plans.
- We will ensure compliance with the Welsh Language Standards.
- We will keep examining the impact of budget cuts on the council's services and performance.

Outcome: More flexible and effective workforce supported by cost efficient infrastructure

- We will review our office space, implement new IT solutions and enable more staff to work flexibly. This means staff will be able to access the information they need and work from any location. This will reduce the time spent on business travel, making more efficient use of our office space, and will improve customer service. This way of working will reduce the council's running costs and carbon emissions.

- We will introduce new opportunities for people to join an apprenticeship scheme for the housing repairs and maintenance team and we will develop staff leadership skills.
- Implement the “Change Management the Denbighshire Way” project to launch support resources for managers, staff and members for managing change.

The Wellbeing Plan:



**Cynllun Lles
Sir Ddinbych
Denbighshire
Wellbeing Plan**



Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Local Service Board

Below is a selection of the activities we plan to undertake in 2015-16 to support the Wellbeing Plan. This is not an exhaustive list of what the council is delivering in relation to the Wellbeing Plan, nor does it include the activities that partners will be contributing during the financial year.

Be Active

- We will explore how we can work together to change our services so that they do not disable or restrict individuals' and communities' independence and resilience.
- We will work with partners to provide interesting and enjoyable leisure and cultural activities that improve people's health and wellbeing and increase people's independence, finding ways to encourage more people to get active and take part.

Connect

- We will work with our partners to help people make the most of their independence and resilience and reduce unplanned access to services, for example, Accident and Emergency. We will do this by identifying the small group of people who are in contact with more than one partner agency on a regular basis and may be using services in ways they were not intended.
- We will be introducing Individual Electoral Registration.
- We will extend free WiFi to all county libraries to meet the requirements of Welsh Government's Library Standards in relation to digital access and connectivity.

Give

- We will actively support community activities across the county in an innovative, coordinated and sustainable way to build upon the skills of local residents, the power of local associations and the supportive functions of local institutions. For example, using a methodology called Asset Based Community Development.

- We will improve the way we support the many valued volunteers who are involved in a range of council services, from Youth Services, Libraries, Countryside Services to Social Services. We will develop Kinetic, a new database for managing volunteering in Denbighshire County Council, which will be rolled out during June/July 2015. Subsequently a Partnership Volunteering Strategy to expand opportunities for staff to volunteer will be developed.

Keep learning

- We will promote and embed the Single Point of Access for adults who require information, advice and support regarding community health and social care. This will be further developed in 2015-16 with the creation of an information hub. This will enable people to find out about their own wellbeing and how they can improve it, for example by joining local groups, trying out a new sport, or learning new subjects.

Take notice

- We will improve the health and wellbeing of our pupils by monitoring the Estyn Inspection outcomes in relation to health and wellbeing best practice and we will continue to identify areas for improvement.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Y Cyngor Llawn
Dyddiad y Cyfarfod:	12 Mai 2015
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro.
Teitl:	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n ymwneud â'r flwyddyn galendr Ionawr i Rhagfyr 2014 yn unig. Y bwriad yw bydd y Cadeirydd yn cyflwyno eu hadroddiad ar y sail hon yn flynyddol o hyn ymlaen, i'r Cyngor Llawn, er mwyn hysbysu'r Aelodau o dueddiadau; materion o ran cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir a gwaith y Pwyllgor o ran codi safonau ymddygiad ar lefel y Sir, ond hefyd ar lefelau Cyngorau Tref, Dinas a Chymuned.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, at holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro sut y cedwir at God Ymddygiad yr Aelodau. Mae pob aelod yn ymwybodol bod eu Cod wedi'i seilio ar (a dylid ei darllen ar y cyd â) 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan. Yng Nghymru mae deg egwyddor (mae * wrth ymyl y rhai na chawsant eu cynnwys yn argymhellion Nolan) fel a ganlyn: -

Anhunanoldeb
Gonestrwydd
Uniondeb a phriodoldeb
Dyletswydd i gynnal y gyfraith *
Stiwardiaeth *
Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
Cydraddoldeb a pharch *
Diffuantrwydd
Atebolrwydd

Arweinyddiaeth

- 4.2 Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau – 2 Gyngorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod Cyngor Cymuned (nad yw'n Aelod dwy het). Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio gan aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Gall y Pwyllgor hefyd ddim ond bod â chworwm pan fo o leiaf hanner yr Aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau annibynnol.

Caiff aelodau annibynnol eu recriwtio trwy hysbyseb gyhoeddus, sydd ar agor i bawb heblaw am feini prawf llym mewn perthynas â bod yn gyn-Swyddog neu gyn-Aelod o'r Cyngor o fewn cyfnodau penodol o amser, bod ag enw da a bod â rhinweddau penodol fel nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Heblaw am hyn, mae'n agored i bobl o bob cefndir, er mwyn cynrychioli barn y cyhoedd o ran y safonau y maent yn disgwyl gan eu haelodau etholedig; ac a fydd hefyd wedyn, os gofynnir iddynt wneud hynny, eistedd i feirniadu mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau at y Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle y torrwyd y Cod Ymddygiad, sy'n disgyn uwchben y trothwy perthnasol. Mae'r penderfyniad i ymchwilio i achos o dorri'r Cod, yn ôl disgrisiwn yr Ombwdsmon; yn seiliedig ar y ffeithiau, tystiolaeth a natur y tor-amod ac os oes tystiolaeth ategol ai peidio, ond hefyd erbyn hyn os oes budd i'r cyhoedd o dreulio amser ac adnoddau ariannol y cyhoedd yn yr ymchwiliad a'r gwrandawriad ei hun; debyg i agwedd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) at gyhuddiadau ac erlyniadau.

Bydd y Pwyllgor sy'n derbyn atgyfeiriad oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ei ymchwiliad i'r gŵyn, yna'n eistedd mewn swyddogaeth led-farnwrol tra'u bod yn clywed y mater. Mae ganddynt bwerau i atal Aelod o'i Swydd am uchafswm o 6 mis, yn ystod y cyfnod ni fyddant yn gallu gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel aelod etholedig ac ni fyddant yn derbyn unrhyw gyflog fel aelod. Mae gan y Pwyllgor y disgrisiwn i osod sancsiynau llai megis gwaharddiad rhannol o ddyletswyddau neu 'gerydd cyhoeddus' ac i osod amodau eraill fel mynychu hyfforddiant.

Mae yna opsiwn lle mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ceisio barn y Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau, o ran yr amgylchiadau hynny lle mae'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio ag ymchwilio, a yw'r Swyddog Monitro yn dymuno ymchwilio yn lleol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Swyddog Monitro yn ymgynghori â'r Cadeirydd a/neu'r Pwyllgor a chaiff pob achos ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

- 4.3 Cyn 2014, roedd y Pwyllgor wedi bod yn allweddol wrth i'r Cyngor ddiwygio ei God Ymddygiad i wneud hyfforddiant ar y Cod yn rhwymedigaeth orfodol ar gyfer Cynghorwyr Sir; cyflwyno Protocol Hunan-Reoleiddio, gan sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar draws y Sir mewn digwyddiadau sioe deithiol Sirol a 'Chod' gan y Swyddog Monitro a'i ddirprwy ar lefel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, darparu hyfforddiant i Gadeiryddion Cynghorau Tref, Cymuned a Dinas a deunydd cyhoeddusrwydd i gynorthwyo Glercod yn y cymunedau.

4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trefnwyd i'r Pwyllgor gyfarfod bum gwaith a bu iddynt gyfarfod ar 4 achlysur oherwydd cafodd cyfarfod mis Hydref ei ganslo. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r eitemau dan drafodaeth: -

Dyddiad y cyfarfod	Eitemau / Meysydd i'w Hadrodd
31/1/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Cofrestr cysylltiadau aelodau ar-lein Eitem Sefydlog: Trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
21/3/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru Llyfr achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Eitem Sefydlog: Trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
9/5/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Protocol Cyfryngau Cymdeithasol Datgan Cysylltiad gan aelodau'r Cyngor Sir (adolygiad sampl gan y Swyddog Monitro) Eitem Sefydlog: Trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
18/ 7/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Mabwysiadu Rhaglen Waith i'r Dyfodol Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau.
17/ 10/ 14	Cyfarfod wedi'i ganslo.

4.5 Eitemau Sefydlog

Erbyn hyn mae 3 eitem sefydlog mae'r Pwyllgor yn ei dderbyn: -

